

PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Iau 17eg Awst 2023

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd W.T. Evans (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:

S.M. Allen, J.M. Charles, T. Davies, M. Donoghue, N. Evans, J.K. Howell, J.P. Jenkins, M.J.A. Lewis, A. Leyshon, D. Owen, B.D.J. Phillips, E. Skinner, R. Sparks, M. Thomas a D.E. Williams

Hefyd yn bresennol:

Y Cynghorydd S. Curry, a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch Cais Cynllunio rhif PL/05770.

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

R. Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (Aman Gwendraeth)
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
H. Towns, Rheolwr Mwynau a Gwastraff Rhanbarthol
H. Rice, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd

Cyfarfod Rhithwir: 10.00 yb - 12.15 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorwyr C. Jones a G.B. Thomas.

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Y Cynghorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
Cynghorydd Michael Thomas	3. Penderfynu ar y Ceisiadau Cynllunio - PL/06001 Gwaredu'r adeiladau presennol, gosod adeilad modiwlaidd a chreu ardal allanol gaeedig ar dir yr ysgol ar gyfer darparu ardal chwarae/dysgu yn yr awyr agored ar gyfer disgyblion awtistig. Bydd yr ardal yn cynnwys mynediad newydd i gerddwyr, mynediad newydd i gerbydau, preifatrwydd, ffensys ac ardal chwarae briwsion rwber yn yr Hen Ysgol, Heol Elfed, Porth Tywyn, SA16 0AL	Mae e wedi bod mewn cysylltiad ag un o'r gwrthwynebwyr ar sawl achlysur ac wedi trafod rhai materion yn ymwneud â'r safle gydag ef a fyddai'n golygu y byddai'n cael trafferth asesu'r cais. Mae hefyd yn aelod o gorff llywodraethu Ysgol Glan y Môr sydd yn agos iawn i'r safle.

3. PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

3.1 PENDERFYNWYD caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

PL/05770	Newid defnydd adeilad preswyl presennol i Dŷ Amlfeddiannaeth 6 ystafell wely yn 156 Heol yr Orsaf, Llanelli, SA15 1YU
	<p>Derbyniwyd sylwadau gan yr aelodau lleol yn gwrthwynebu'r cais, fel y manylwyd yn adroddiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd, yn pwysleisio bod gormod o dai amlfeddiannaeth eisoes yn yr ardal a oedd wedi arwain at gynnydd o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol, sbwriel a throedd yn Ward Tyisha a gafodd effaith ar gydlyniant cymunedol gan wneud yr ardal yn llai deniadol i deuluoedd ifanc a pheri i brisiau tai ostwng.</p> <p>Ymatebodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd.</p> <p>Gwnaethpwyd awgrymiadau cryf fod mwy o dai amlfeddiannaeth yn yr ardal na'r nifer cofnodedig a nodwyd yn adroddiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd.</p> <p>Mewn ymateb i gais ynghylch a ellid gohirio'r cais fel y gellid archwilio'r cwestiwn am dai amlfeddiannaeth, dywedodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu y dylai'r Pwyllgor wneud penderfyniad yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwyd ger eu bron heddiw.</p>
PL/05786	Adeiladu preswylfa yn unol â chymhwysedd - polisi anghenion lleol ym Mhlas Newydd, Llan-gain, Caerfyrddin, SA33 5AY
	<p>Atgoffwyd yr Aelodau fod y cais hwn wedi cael ei adrodd i'r Pwyllgor Cynllunio am y tro cyntaf ar 22 Mehefin 2023. Atgynhychwyd yr adroddiad gwreiddiol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cynllunio i'w ystyried gan y Pwyllgor.</p>
PL/06001	Gwaredu'r adeiladau presennol, gosod adeilad modiwlaid a chreu ardal allanol gaeedig ar dir yr ysgol ar gyfer darparu ardal chwarae/dysgu yn yr awyr agored ar gyfer disgyblion awtistig. Bydd yr ardal yn cynnwys mynediad newydd i gerddwyr, mynediad newydd i gerbydau, preifatrwydd, ffensys ac ardal chwarae briwsion rwber yn yr Hen Ysgol, Heol Elfed, Porth Tywyn, SA16 0AL
	<p>(NODER: Roedd y Cynghorydd M. Thomas wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach; ailddatganodd y buddiant hwnnw a gadawodd y cyfarfod.</p>

4. PERFFORMIAD Y GWASANAETH CYNLLUNIO - CHWARTER 1

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Adroddiad Perfformiad y Gwasanaeth Cynllunio, ar gyfer Chwarter 1 am y cyfnod 1 Ebrill 2023 hyd at 30 Mehefin 2023 ar gyfer y gwasanaeth Cynllunio, ac, yn arbennig, yr Is-adran Rheoli Datblygu a Gorfodi. Roedd yr adroddiad yn cynnwys dangosyddion monitro perfformiad craidd ynghyd â data cymharol mewn perthynas â 2022/23.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at ddangosydd 13 - Cwynion Gorfodi wedi'u cofrestru. Mewn ymateb i ymholiadau a godwyd ynghylch lleoli carafanau heb ganiatâd cynllunio, dywedodd yr Uwch-reolwr Datblygu a Gorfodi y gall y system orfodi fod yn broses hir ac esboniodd y ffactorau a allai effeithio ar yr amserlenni.
- Cyfeiriwyd at Ddangosydd 14 – Canran yr achosion gorfodi sydd wedi cau yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod. Ar ôl adrodd i'r Adran Gynllunio, dywedwyd y gallai fod rhwng 2 a 3 mis cyn y byddai'r troseddwr yn cael hysbysiad ac, yn yr amser hwnnw, mae gwaith pellach wedi'i wneud. Gofynnwyd a fyddai modd anfon llythyr at y troseddwr yn ei hysbysu bod adroddiad wedi'i wneud ac yn gofyn iddo roi'r gorau i'r gwaith hyd nes bod ymchwiliadau'n digwydd? Eglurodd yr Uwch-reolwr Datblygu a Gorfodi, wrth dynnu sylw at y ffaith y dylid cynnal ymchwiliad o fewn 84 diwrnod, fod adroddiadau i'r Adran Gynllunio yn cael eu blaenoriaethu yn dibynnu ar ffactorau amrywiol ac yn unol â'r effaith ar yr amwynderau a'r amgylchedd.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

5. ADRODDIAD APELIADAU

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Adroddiad Apeliadau Cynllunio a oedd yn darparu gwybodaeth yn ymwneud ag apeliadau cynllunio a gyflwynwyd ar 7 Awst, 2023.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad.

6. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 20 GORFFENNAF 2023

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 20fed Gorffennaf, 2023 yn gofnod cywir.

CADEIRYDD

DYDDIAD